

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGANOLFAN GYMUNEDOL, BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 7fed CHWFROR, 2022.

1. CROESO

Fe groesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS (Cadeirydd), a'r Cynghorwyr John EVANS; Tudur W. JONES; Gwyndaf O. ROBERTS; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; Bryn JONES; Ifor G. LLOYD (Cynghorydd Sir).

3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwr D. Gwyn JONES.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgofffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dsweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10fed Ionawr, 2022.

6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

7. CYLLID

a. Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Ionawr 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | |
|------------------|-----------------------|
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| Arian Allan | = £5.00 (Costau Banc) |
| Cyfrif Cymunedol | = £9,846.37 |

Cyfrif Busnes = £5,551.46
Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

- b. Cafwyd trafodaeth am fancio ar lein ble y byddai yn haws i'r Clerc dalu biliau ayyb heb orfod defnyddio sieciau bob tro, a felly hefyd yn arbed y gost o yrru taliadau drwy'r post. Cytunodd yr aelodau i'r Clerc edrych i mewn i drefnu hyn os yw'n bosib

8. GOHEBIAETH

10.21/8(iii) Llythyr i Darren Millar AS ynglyn a mynychu cyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

Llythyr a siec i John Ffrancon Griffith am gyfieuthu

Llythyr a siec i Aston Hughes am ofalu am dal y Clerc

Llythyr a siec i Delyth Jones, Delfryn, Llanelian – Pwyllgor yr Henoed Llanelian.

Llythyr gan gwmni Vantage FeeProtect – Yn cynnig yswiriant yn erbyn costau archwiliad gan HMRC. Penderfynwyd nad oedd ei angen.

9. GRANTIAU

Ceisiadau wedi ei derbyn oddi wrth Ty Gobaith ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru am rodd ariannol tuag at ei mudiadau. Penderfynwyd cynnwys y ceisiadau yma ym mhraesept y flwyddyn ariannol nesaf.

10. CYNLLUNIO

- a. 11.21/12(i) 0/48997 Adnewyddu cymeradwyaeth cynllunio 0/43196 (Annedd adnewidyn arfaethedig) yn Glan Gors, Llanelian. Mr S.Brooks a Ms J.Croft – 'Roedd yn awr yn amlwg fod y cynlluniau yma wedi ei ganiatau beth amser yn ol a bod y cais diweddaraf ond i barhau gweithredu y cynlluniau. Felly nid oes angen i'r achos yma barhau ar yr Agenda.
- b. 12.21/12 (iv) 0/49181 Cymeradwyo amod rhif 4 (Tirlunio Caled a Meddal) ar ganiatâd cynllunio 0/44848 (Adeiladu annedd, mynedfa a gwaith peirianyddol cysylltiedig): Plot 5 The Granary Cottages Betws Yn Rhos Abergele Conwy - Mr Barry McDowell. Bu i'r cais yma ei drafod mis diwethaf ac er nad oedd gwrthwynebiad i'r cais fe roedd poeni am enw saesneg y lleoliad. Roedd y Clerc wedi gyrru ymholiad i'r Cyngor Sir ac yn awr yn disgwyl ateb gan yr Adran Drwyddedu.
- c. 02.22 10 (i)Cais: Rhif y Cais: 0/49321 Cyfeirnod Grid: 297169,378712
Lleoliad: Bryn Rodyn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay LL29 8UU

Cymeradwyo materion sy'n ofynnol dan amodau 6 (Tirlunio) yng nghaniatâd cynllunio 0/49072 (Newid defnydd tir i storio carafanau drwy greu llawr caled cysylltiol.) – Dim Gwrthwynebiad.

- d. 0/48681 Mr Enfys Parry, Oak Tree Farm, Ffynhonnau Road, Betws yn Rhos, Abergele LL22 8AB: Cadw a defnyddio carafan statig fel llety gwyliau – Mae hwn yn ail gais yn dilyn gofyniad mwy o wybodaeth gan yr Adran Gynllunio. Yn ol pob golwg mae'r cais yma wedi ei ail gyflwyno heb ddim newidiadau. Penderfynwyd disgwyl am sylwadau yr Adran Gynllunio.
- e. 0/49368 Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt Cynllun: Adeiladu 2 adeilad amaethyddol (Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Amaethyddol) Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidad Road Betws Yn Rhos Conwy LL22 8AG – Mae achosion eraill ynglun a chynllunio ynghlwm a'r safle yma ac yn destyn ymchwiliad gan yr Adran Gynllunio a felly gwell disgwyl am ei canlyniadau nhw.

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL –

Dywedodd y Clerc fod canlyniadau yr archwiliadau wedi dod i law ac ei bod yn foddhaus. Fe fydd y canlyniadau ar gael i unrhyw un drwy gysylltu a'r Clerc, a bydd hysbysiad o hyn yn cael ei roi ar Wefan Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

- a. 21/14(i) Fferm Wynt yn ardal Nant Ucha a Mynydd Du. Mae'r mater yn dal iw gael ei drafod cydrhwng y Senedd a'r Cyngor Sir. 'Roedd pryderon ymysg rhai o'r Cynghorau Lleol nad oeddynt wedi cael ei cynnwys mewn unrhyw fath o drafodaeth ynglun a'r mater. Bydd y Cynghorydd Sir, Ifor LLOYD yn ein cadw i fyny gyda'r gwybodaeth diweddaraf.
- b. Bu i'r Cynghorydd Ifor LLOYD ddarganfod rhywun yn taflu ysbwriel ar ochr y ffordd cydrhwng Bryn y Maen a Llanelian. Fan Transit Wen gyda'r rhif KN02 . Fe wnaed i'r troseddwr godi'r sbwriel a'i roi yn ol yn ei gerbyd, ac fe roed y wybodaeth i'r Heddlu. Mae'n rhaid i ni edrych allan am droseddau o'r fath yn ardal y Cyngor.
- c. Daeth ateb gan Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir am gyflwr y bont wrth Ysgubor Newydd. Wedi ymweliad gan un o'i harolygwyr bu iddynt ddweud fod y bont yn ddiogel ar y funud.

13. GOSOD PLAC – CYFLAWNIAD Ms GEORGIA WILSON

9.21/6(i) Dyfyniad diweddar a dyfyniad newydd yn awr wedi dod i law. Cyflwynodd y Clerc syniad newydd i'r plac a dangosodd esiampl i'r aelodau. Cytunodd pawb ar y syniad yma. Dywedodd y Cynghorydd Gwyndaf ROBERTS y buasai yn cael sgwrs gyda Georgia a'i theulu ynglun a'r plac. Os byddant yn hapus wedyn fe ddylai'r Clerc gario mlaen a'i gael wedi ei baratoi.

14. JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES

01.22/15 (ii). Dathliad/Jiwbili Platinwm Y Frenhines – 2 Mehefin 2022. Yn dilyn y drafodaeth yn ystod y pwyllgor diwethaf, penderfynwyd mae plannu coeden fyddai'r cynllun i ddathlu Jiwbili Platinwm Y Frenhines. Penderfynwyd y byddai un goeden 'Copper Beech' yn cael ei phlanu tu ol i ganolfan Betws yn Rhos ac un arall yn cael ei phlanu yn y Cae Chwarae gyferbyn a'r Ganolfan yn Llanellian. Byddai hyn yn cymeryd lle yn Mis Hydref. Dewiswyd y Ffawyddden Goch am fod son bod coed o'r un math wedi ei plannu yn lleol i ddathlu Coroni Y frenhines.

15. RHEOLIADAU a CHYRSIAU i GYNGHORWYR a CHLERCOD

01.22/15 (iv). Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021. Mae'r cyrsiau hyn yn nawr ar gael am ddim. Bydd y Clerc yn rhoi ei enw ei hun ymlaen i wneud rhai o'r cyrsiau a bod croeso i unrhyw un arall ymuno a'r cyrsiau rhuthiol. Hwyrach y byddant o werth i unrhyw gynghorydd newydd a fyddai'n ymuno ar ol yr etholiadau yn Mis Mai.

16. UNRHYW FATER ARALL.

- a. Newid dyddiad Pwyllgot Mis Hydref. Dywedodd y Clerc na fyddai ar gael i'r cyfarfod ar y 3ydd o Hydref. Felly newidwyd y dyddiad i Nos Lun 17eg o Hydref 2022.
- b. Etholiadau Mis Mai – Mae fideo o wybodaeth ar gael i rhywun sydd yn meddwl ymuno a'r Cyngor. Bydd y linc ar gael drwy gysylltu a'r Clerc. Bydd yr etholiadau yn cael ei trafod ym mhwyllgor mis nesaf.
- c. 01.22/15 (vi) Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod y Pwyllgor diwethaf am gyflwr rhai o'r ffyrdd lleol yn arbennig ffordd Llanellian o hen Golwyn. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am ateb gan y Cyngor Sir. Byddai yn ysgrifennu neges arall iddynt yn y dyddiau nesaf
- d. Codwyd pryderon hefyd am gyflwr y ffynnon ar Ffordd Abergele, Betws yn Rhos gyferbyn a Chapel Hyfrydle. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor.
- e. Mae'r goeden fawr gyferbyn a Neuadd Bentref Betws yn Rhos, sydd fel arfer yn dal rhai o oleuadau'r Nadolig angen ei thocio. Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 8.55y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....

